

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Trefechan, Aberystwyth,
Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2024

The A487 Trunk Road (Trefechan,
Aberystwyth, Ceredigion)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2024

Gwnaed 23 Chwefror 2024

Made 23 February 2024

Yn dod i rym 4 Mawrth 2024

Coming into force 4 March 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A487 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Trefechan, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mawrth 2024.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Trefechan, Aberystwyth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 4 March 2024.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 4 Mawrth 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the length of the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A487 Abergwaun i Fango.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar hyd y darn o’r gefnffordd a enwir a elwir hefyd yn Ffordd Penparcau, sy’n ymestyn o bwynt 100 metr i’r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Gerddi Rheidol i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 360 o fetrau hyd at y ffordd ddynesu ddeheuol i Bont Trefechan yn Nhrefechan, Aberystwyth.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

23 Chwefror 2024

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 4 March 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the named trunk road also known as Penparcau Road, that extends from a point 100 metres south-east of the centre-point of its junction with Gerddi Rheidol in a north-westerly direction for a distance of 360 metres to the southern approach to Trefechan Bridge at Trefechan, Aberystwyth.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order shall be 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

23 February 2024

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government